
Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**




# Rheolwyr Cartrefi Gofal i Oedolion ar y Gofrestr yng Nghymru 2017

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Canllaw ac allwedd defnyddwyr

- Canllaw 'clicio a mynd' yw hwn sy'n eich galluogi i ddod o hyd i wybodaeth am destunau penodol yn gyflym ac yn uniongyrchol
- Mae'r dudalen gynnwys yn dangos beth mae pob adran o'r ddogfen yn ei gwmpasu. Cliciwch yr adran sydd ei heisiau arnoch, a byddwch yn mynd yn syth ati
- Trwy gydol y ddogfen, cliciwch ar unrhyw ddolen gyswllt at y wefan honno. Gallwch glicio ar y botwm ar unrhyw adeg i fynd yn ôl at y dudalen gynnwys



# Cynnwys


1. Cyflwyniad 04

2. Crynodeb 04

3. Pwyntiau allweddol 05

4. Beth rydym ni'n ei wneud 06

5. Data a dadansoddiad 07

5.1 Rheolwyr sy'n ymuno ac yn ymadael â'r Gofrestr 07

5.2 Nifer y rheolwyr a gwasanaethau cofrestredig 09

5.3 Gwybodaeth am gyflogaeth 10

5.4 Cyfnod mewn swydd 14

5.5 Cymwysterau 15

5.6 Oed a rhywedd 17

5.7 Amrywiaeth a'r Gymraeg 18

# 1. Cyflwyniad

Dyma ein chweched adroddiad blynyddol ar reolwyr cartrefi gofal i oedolion yng Nghymru. Diben yr adroddiad yw rhoi sylwadau ar y data, craffu arno a chyhoeddi crynodeb ohono, fel bod gennym well dealltwriaeth o'r gweithlu.

Daw'r wybodaeth o Gofrestr Gweithwyr Gofal Cymdeithasol Gofal Cymdeithasol Cymru (y Gofrestr). Mae'r rheolwyr yn rhoi data i ni amdanynt eu hunain a'u cyflogaeth yn ystod y broses o wneud cais i gofrestru a pharhau i gofrestru gyda ni.

Ers 1 Hydref 2011, mae'n rhaid bod rheolwyr cartrefi gofal i oedolion yng Nghymru wedi cymhwyso a chofrestru gyda ni. Cyflwynwyd hyn gan Lywodraeth Cymru trwy Reoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2011.

Mae'r adroddiad hwn yn bwrw golwg ar y 1,218 o reolwyr ar y Gofrestr ar 1 Mehefin 2017 a newidiadau i'w cyflogaeth rhwng 1 Mehefin 2016 a 31 Mai 2017. Ni chafodd rheolwyr a oedd yn gwneud cais i gofrestru eu cynnwys.

Nid oes angen i weithwyr cartrefi gofal i oedolion gofrestru eto felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

# 2. Crynodeb

Ar gyfartaledd, mae rheolwyr cartrefi gofal i oedolion yn 49 oed, yn wyn ac yn fenywaidd. Mae dros draean ohonynt yn gallu rhywfaint o Gymraeg. Mae'r mwyafrif yn gweithio yn y sector preifat ac wedi bod yn eu swydd ers dros bum mlynedd.

Mae nifer y rheolwyr ar y Gofrestr wedi gostwng eleni ac mae trosiant wedi cynyddu. Mae trosiant o 15.4 y cant yn uwch nag oedd yn unrhyw un o'r adroddiadau blaenorol dros y pum mlynedd diwethaf ac mae'n uwch nag yn unrhyw rôl gofrestredig arall. Mae 37 yn llai o reolwyr nag yn 2014.

Mae'r data yn awgrymu bod 53 gwasanaeth lle mae swydd y rheolwr yn wag, sy'n golygu bod 4.9 y cant o wasanaethau heb reolwr. Roedd y canran yn y flwyddyn flaenorol yn 4.2 y cant. Mae nifer y gwasanaethau cofrestredig wedi gostwng 1.9 y cant yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn yn codi pryderon am argaeledd rheolwyr yn y sector.

Mae'n bryder o hyd bod rhai rheolwyr mewn swydd wedi methu cofrestru gyda ni. Roedd 37.3 y cant o reolwyr a oedd yn ymuno â'r Gofrestr yn cofrestru'n hwyr, gan eu bod wedi bod yn eu swydd am fwy na

12 mis cyn dyddiad yr adroddiad. Mae hyn wedi'i godi â rheoleiddiwr y gwasanaeth, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Mae gan bob rheolwr gymhwyster perthnasol ac, erbyn hyn, mae bron traean (31 y cant) yn dal Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Breswyl Oedolion) Cymru, sef y cymhwyster presennol sy'n caniatáu i reolwyr gofrestru. Dyma gynnydd o 24 y cant ers 2016.

Mae nifer y rheolwyr dros 60 oed yn parhau i godi ond mae'r oedran cyfartalog, sef 49 oed, yn gyson o hyd. Fodd bynnag, roedd bron i 60 y cant o'r rheolwyr newydd a oedd yn ymuno â'r Gofrestr o dan 45 oed. Mae 19.8 y cant o reolwyr yn ddynion, cynnydd o un y cant o gymharu â'r llynedd. Dyma'r ganran uchaf o ddynion a gawsom ar y Gofrestr erioed ac mae'n gynnydd o fwy na dau y cant o gymharu â 2013. Mae gallu'r Gymraeg yn parhau i godi.

# 3. Pwyntiau allweddol

- Roedd **1,218 o unigolion ar y Gofrestr** ar 1 Mehefin 2017. Roedd hyn yn ostyngiad o 3.6 y cant ers yr adroddiad blaenorol, o 1,263 ar 1 Mehefin 2016.

- Prif ffynhonnell y rhai a ymunodd â'r Gofrestr eleni oedd **rheolwyr yn dechrau mewn rôl newydd yn ystod y cyfnod hwn** (63 rheolwr, sef 42 y cant o'r rhai a wnaeth ymuno â'r Gofrestr).

- Y **sector preifat** sy'n parhau i gyflogi'r nifer fwyaf o reolwyr cartrefi gofal i oedolion.

- Mae **rheolwyr yn 49 oed ar gyfartaledd o hyd**; mae ychydig o dan hanner ohonynt (48.5 y cant) dros 50 oed ac mae 21.5 y cant yn 40 neu'n iau.

- Fe wnaeth **93.2 y cant** o bersonau cofrestredig ddisgrifio'u hunain yn **Wyn Prydeinig**, **Gwyn Cymreig** neu **Wyn Gwyddelig**.

# 4. Beth mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei wneud

Eleni, rydym ni wedi:

- Gweithio gyda Chymwysterau Cymru a chydweithwyr ar draws y sector i adolygu cymwysterau craidd a bydd y rhain ar gael i'w haddysgu ym Medi 2019.

- Bydd gan y cymwysterau newydd lwybr dilyniant hyd at Lefel 4 ar gyfer ymarfer a rheoli. Hyd nes byddant yn cael eu datblygu, byddwn yn cefnogi dyfarniad Camu at Reoli – rydym yn gwahodd ceisiadau am leoedd wedi'u hariannu ar gyfer Ionawr 2018

- Diwygio'r fframwaith sefydlu, i gyfrif am eich adborth; caiff ei lansio ar ddiwedd 2017 a'i roi ar waith o Ebrill 2018 ymlaen.

- Dechrau gweithio ar fframwaith strategol gyrfaoedd, recriwtio a chadw, sy'n cael ei lunio ar sail adborth o weithdai a gynhaliwyd mewn rhanbarthau ar draws Cymru.

- Rydym wedi darparu cyllid uniongyrchol ar gyfer dysgu a datblygu trwy Raglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol

Wrth symud ymlaen, rydym ar hyn o bryd yn ystyried strategaeth hirdymor y gweithlu ar gyfer y sector gofal cymdeithasol cyfan.

I ategu ein blaenoriaeth i wella gwasanaethau, rydym yn parhau i gyflwyno rhaglen i gefnogi arfer sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau, gyda chymorth i weithwyr cymdeithasol, darparwyr gwasanaethau a chomisiynwyr yn 2017/8.

# 5. Data a dadansoddiad

## 5.1 Rheolwyr sy'n ymuno ac yn ymadael â'r Gofrestr

- Mae 1,218 o reolwyr wedi'u cofrestru

Tabl 1: Nifer y rheolwyr cartrefi gofal i oedolion ar y Gofrestr

| Blwyddyn adrodd | Wedi ymuno â'r Gofrestr fel rheolwr cartref gofal i oedolion | Wedi ymadael â'r Gofrestr fel rheolwr cartref gofal i oedolion | Trosiant ar ffurf canran | Nifer y rheolwyr cartrefi gofal i oedolion wedi cofrestru ar 1 Mehefin | Newid net ers yr adroddiad blaenorol |
|---|---|---|---|---|---|
| 2013 | 194 | 96 | 8.7% | 1,201 | 4.9% |
| 2014 | 176 | 122 | 10.2% | 1,255 | 4.5% |
| 2015 | 178 | 183 | 14.6% | 1,250 | -0.4% |
| 2016 | 164 | 151 | 12.1% | 1,263 | 1.0% |
| 2017 | 150 | 195 | 15.4% | 1,218 | -3.6% |

Tabl 2: Rhesymau dros ymuno â'r Gofrestr

| | Nifer y rheolwyr | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rheswm dros ymuno â'r Gofrestr | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Wedi dechrau swydd yn y flwyddyn ddiwethaf | 44 | 49 | 58 | 69 | 63 |
| Hwyr yn cofrestru. Wedi cofrestru am y tro cyntaf fel rheolwr cartref gofal i oedolion yn y flwyddyn ddiwethaf, ond wedi dechrau'r swydd dros flwyddyn yn ôl | 79 | 53 | 53 | 53 | 56 |
| Wedi cymhwyso yn ystod y flwyddyn ddiwethaf | 56 | 53 | 55 | 34 | 22 |
| Eisoes wedi cofrestru. Cofrestru'n ychwanegol fel rheolwr cartref gofal i oedolion | 15 | 21 | 12 | 7 | 8 |
| Eisoes wedi cofrestru. Wedi'i atal yn flaenorol. | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Cyfanswm | 194 | 176 | 178 | 164 | 150 |

- Dechrau rôl newydd oedd prif reswm rheolwyr dros ymuno â'r Gofrestr eleni (42 y cant o'r rhai a oedd yn ymuno).
- Roedd 37.3 y cant o'r rhai a oedd yn ymuno yn cofrestru'n hwyr; roeddent wedi bod yn eu swydd ers dros 12 mis cyn dyddiad yr adroddiad.

**Tabl 3: Rhesymau dros ymadael â'r Gofrestr**

| | Nifer y rheolwyr | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rheswm dros ymadael â'r Gofrestr | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Cofrestriad wedi pallu | 21 | 29 | 75 | 76 | 108 |
| Nid oes angen cofrestru ar gyfer y swydd bresennol | 18 | 18 | 30 | 27 | 34 |
| Ddim yn gweithio mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru mwyach | 20 | 26 | 21 | 13 | 17 |
| Wedi ymddeol | 14 | 19 | 18 | 16 | 14 |
| Arall | 2 | 10 | 14 | 5 | 10 |
| Wedi newid rôl gofrestredig | 17 | 17 | 19 | 3 | 7 |
| Wedi'i Atal/Gorchymyn Atal Dros Dro | 4 | 2 | 3 | 7 | 4 |
| Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer wedi tynnu enw o'r Gofrestr | 0 | 1 | 3 | 4 | 1 |
| Cyfanswm | 96 | 122 | 183 | 151 | 195 |

- Fe wnaeth mwy o reolwyr ymadael â'r Gofrestr (195) o gymharu â 2016 (151), sef cynnydd o 23 y cant.
- Cafodd dros hanner y rhai a wnaeth ymadael â'r Gofrestr (55.4 y cant) eu tynnu o'r Gofrestr am nad oeddent wedi cynnal eu cofrestriad, naill ai trwy fethu â gwneud cais i adnewyddu eu cofrestriad neu trwy beidio â thalu ffi flynyddol. Symud i swydd wahanol ym maes gofal cymdeithasol, lle nad oedd angen cofrestru, oedd y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros adael gan y rhai a ymadawodd â'r Gofrestr yn wirfoddol. Ymddeol oedd y rheswm a roddwyd gan 7.2 y cant o'r rhai a ymadawodd.
- Fe wnaeth Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer atal pedwar rheolwr a thynnu enw un rheolwr o'r Gofrestr. Rydym yn parhau i weithio'n agos gydag AGGCC ac mae llawer o ymchwiliadau bellach yn mynd yn eu blaen gyda gwybodaeth a ddarparwyd gan AGGCC, gydag arolygwyr yn dystion.
- O'r rheolwyr hynny a wnaeth ymadael â'r Gofrestr, roedd 46.7 y cant yn 50 oed neu'n iau ac roedd 53.3 y cant dros 50 oed.

## 5.2 Nifer y rheolwyr a gwasanaethau cofrestredig

Tabl 4: Nifer y rheolwyr wedi cofrestru a nifer y gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion sydd wedi'u cofrestru gydag AGGCC

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | Newid net Mehefin 2016 i Fehefin 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y rheolwyr | 1,201 | 1,255 | 1,250 | 1,263 | 1,218 | -45 |
| Nifer y gwasanaethau | 1,138 | 1,131 | 1,108 | 1,100 | 1,087 | -13 |

- Mae'r rhan fwyaf o'r rheolwyr ar y Gofrestr yn rheoli cartref gofal cofrestredig ar restr AGGCC, neu gartref gofal sydd wrthi'n cofrestru.

- Mae 49 ohonynt yn rheoli mwy nag un cartref gofal cofrestredig (pedwar y cant).

- Yn ogystal, mae gan 22 o reolwyr ail swydd yn rheoli gwasanaeth gofal cartref. Mae rhai rheolwyr hefyd yn dirprwyo mewn gwasanaeth arall fel rôl ychwanegol. Mae'r tablau isod yn cyfrif pob rheolwr unwaith ar gyfer eu prif swydd yn unig.

- Mae rhestr AGGCC o wasanaethau cartrefi gofal cofrestredig i oedolion yng Nghymru yn cynnwys 1,087 o gartrefi gofal:
  - 403 chartref gofal i oedolion hŷn (4.7 y cant heb reolwr),
  - 242 gartref gofal i oedolion hŷn gyda nyrsio (6.6 y cant heb reolwr),
  - 420 cartref gofal i oedolion iau (4.0 y cant heb reolwr),
  - 22 gartref gofal i oedolion iau gyda nyrsio (4.5 y cant heb reolwr).

- Mae nifer y gwasanaethau cofrestredig yng Nghymru yn gymharol sefydlog, ond mae wedi gostwng yn raddol 1.9 y cant yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, o 1,108 yn 2015 i 1,087 eleni.

- Mae 53 gwasanaeth lle mae swydd y rheolwr yn wag ac nid oes rheolwr wedi'i gofrestru gyda ni nac AGGCC.

## 5.3 Ble mae'r rheolwyr wedi'u cyflogi?

Tabl 5: Nifer a chanran y rheolwyr sydd wedi'u cyflogi neu sy'n hunangyflogedig mewn gofal cymdeithasol

| | Canran a nifer y rheolwyr | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013 | | 2014 | | 2015 | | 2016 | | 2017 | |
| Wedi cofrestru | | 1,201 | | 1,255 | | 1,250 | | 1,263 | | 1,218 |
| Cyflogedig neu hunangyflogedig | 97% | 1,164 | 97.7% | 1,226 | 97.3% | 1,216 | 96.4% | 1,218 | 95.2% | 1,159 |
| Cyflogaeth bresennol yn anhysbys, neu'n ddi-waith | 3% | 37 | 2.3% | 29 | 2.7% | 34 | 3.6% | 45 | 4.8% | 59 |

- O'r 1,159 o reolwyr sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol, roedd 15.4 y cant (178 rheolwr) yn hunangyflogedig.

Tabl 6: Rheolwyr a gyflogir gan y sector neu gan asiantaeth

| | Canran a nifer y rheolwyr | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector neu asiantaeth | 2013 | | 2014 | | 2015 | | 2016 | | 2017 | |
| Preifat | 80.4% | 936 | 80.7% | 985 | 81.7% | 990 | 83.2% | 1,013 | 83.2% | 964 |
| Awdurdod Lleol – Gwasanaethau Cymdeithasol | 12.2% | 142 | 12.0% | 147 | 11.1% | 134 | 10.0% | 122 | 9.9% | 115 |
| Trydydd Sector | 7.3% | 85 | 6.8% | 83 | 6.8% | 82 | 5.9% | 72 | 5.9% | 68 |
| Addysg neu iechyd AU/ AB | 0.1% | 1 | 0.2% | 3 | 0.2% | 3 | 0.7% | 9 | 0.9% | 10 |
| Asiantaeth Recriwtio / Asiantaeth Cyflogaeth | 0.0% | 0 | 0.2% | 3 | 0.2% | 3 | 0.2% | 2 | 0.2% | 2 |
| Cyfanswm nifer | | 1,164 | | 1,221 | | 1,212 | | 1,218 | | 1,159 |

- I raddau helaeth, nid yw canrannau'r rheolwyr sy'n gweithio ym mhob sector neu ar gyfer asiantaeth wedi newid rhyw lawer ers 2016. Y sector preifat sy'n parhau i gyflogi'r nifer fwyaf o reolwyr (83.2 y cant).

- Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae canran y rheolwyr a gyflogir gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol wedi gostwng 2.3 y cant yn raddol ac mae canran y rheolwyr a gyflogir yn y sector preifat wedi cynyddu 2.8 y cant.

### Tabl 7: Math o swydd

Mae'r tabl isod yn rhestri'r teitlau swydd a roddwyd gan reolwyr

| Math o swydd | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rheolwr | 939 | 911 | 915 | 915 | 869 |
| Perchennog / rheolwr | (wedi'u cyfuno) | 61 | 65 | 52 | 46 |
| Dirprwy Reolwr / Rheolwr Cynorthwyol | 91 | 107 | 108 | 103 | 101 |
| Rheolwr Dros Dro / Rheolwr Cymorth | 41 | 44 | 46 | 47 | 46 |
| Rôl arall ar lefel rheolwr | 36 | 27 | 14 | 29 | 31 |
| Metron neu Nyrs Reolwr | 53 | 46 | 39 | 33 | 26 |
| Perchennog (nad yw'n rheolwr) | 10 | 19 | 12 | 18 | 15 |
| Cyfarwyddwr | - | - | 4 | 8 | 12 |
| Islaw lefel rheolwr | 6 | 11 | 9 | 5 | 8 |
| Nyrs | - | - | 4 | 8 | 5 |
| Cyfanswm | 1,176 | 1,226 | 1,216 | 1,218 | 1,159 |

- Mae nifer y teitlau swydd rheolwr a pherchennog/rheolwr wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2014.

Tabl 8: Nifer y rheolwyr ym mhob awdurdod unedol yng Nghymru

| Awdurdod Unedol | Nifer y gwasanaethau | Nifer y rheolwyr | Nifer y rheolwyr fesul 10,000 o boblogaeth |
|---|---:|---:|---:|
| Sir Gaerfyrddin | 89 | 101 | 5.4 |
| Abertawe | 97 | 100 | 4.1 |
| Caerdydd | 94 | 96 | 2.7 |
| Sir Ddinbych | 77 | 75 | 7.9 |
| Rhondda Cynon Taf | 59 | 69 | 2.9 |
| Conwy | 75 | 68 | 5.8 |
| Sir Benfro | 63 | 66 | 5.3 |
| Gwynedd | 51 | 62 | 5.0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 45 | 61 | 4.3 |
| Caerffili | 55 | 52 | 2.9 |
| Casnewydd | 37 | 49 | 3.3 |
| Wrecsam | 42 | 48 | 3.5 |
| Bro Morgannwg | 40 | 44 | 3.4 |
| Powys | 42 | 42 | 3.2 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 35 | 35 | 2.4 |
| Sir y Fflint | 34 | 33 | 2.1 |
| Sir Fynwy | 34 | 33 | 3.6 |
| Ynys Môn | 30 | 32 | 4.6 |
| Torfaen | 24 | 28 | 3.0 |
| Ceredigion | 25 | 26 | 3.5 |
| Merthyr Tudful | 19 | 20 | 3.3 |
| Blaenau Gwent | 20 | 16 | 2.3 |
| Y tu allan i Gymru | dd/b | 3 | dd/b |
| Cyfanswm | 1,087 | 1,159 | Cyfartaledd cyffredinol 4.5 |

- Sir Gaerfyrddin sydd â'r nifer uchaf o reolwyr am y tro cyntaf. Roedd gan chwe awdurdod lai o reolwyr na gwasanaethau wedi'u cofrestru.

- Nifer y rheolwyr fesul 10,000 o bobl ar draws Cymru gyfan yw 4.5. Yr awdurdodau unedol gyda'r nifer uchaf o reolwyr fesul 10,000 o bobl yw Sir Ddinbych (7.9), Conwy (5.8), Sir Gaerfyrddin (5.4) a Sir Benfro (5.3). Y siroedd â'r nifer isaf o reolwyr fesul 10,000 yw Sir y Fflint (2.1), Blaenau Gwent (2.3), Pen-y-bont ar Ogwr (2.4) a Chaerdydd (2.7).

## 5.4 Cyfnod mewn swydd

- Ar gyfartaledd, roedd rheolwyr wedi bod yn eu swydd bresennol yn 2017 ers 8 mlynedd, sydd heb newid o'r llynedd.

Tabl 9: Cyfnod yn y swydd bresennol

| | Nifer a chanran y rheolwyr | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Wedi newid i swydd arall o fewn y flwyddyn ddiwethaf | 7.7% (92) | 12.1% (152) | 15.2% (190) | 11.2% (136) | 10.3% (125) |
| Wedi newid i swydd arall o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf | 19.2% (231) | 21.9% (275) | 27.9% (349) | 25.7% (313) | 22.7% (274) |
| Yn y swydd bresennol ers pum mlynedd neu fwy | 51.5% (618 ) | 50.7% (636) | 47.7% (596) | 49.6% (604) | 50.8% (614) |
| Yn y swydd bresennol ers dros 10 mlynedd | 27.4% (329) | 27.3%( 343) | 25.7% (321) | 27.6% (336) | 27.5% (332) |


- Fe wnaeth canran y rheolwyr sydd wedi newid swydd yn ystod y 12 mis diwethaf ostwng i 10.3 y cant, yn is nag yn y tair blynedd ddiwethaf.

- Fe wnaeth canran y rheolwyr sydd wedi bod yn eu swydd bresennol ers dros 5 mlynedd gynyddu 1.2 y cant, ond fe wnaeth y canran yn eu swydd ers dros 10 mlynedd aros bron yn union yr un fath.

- Lle'r oedd y rheswm dros newid yn eu cyflogaeth yn hysbys, roedd 40.5 y cant o'r rheolwyr wedi symud i gyflogwr newydd ac roedd 38.6 y cant wedi newid swydd neu leoliad gwaith o fewn yr un sefydliad.

## 5.5 Cymwysterau

Ffigur 1: Cymwysterau




- Dyfarniad Rheolwr Cofrestredig
- Lefel 5 LHSCS (Rheolaeth Breswyl Oedolion)
- NVQ 4 Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer Gwasanaeth Gofal
- NVQ 4 Rheolaeth
- NVQ 4 Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion)
- NVQ 4 Gofal
- NVQ 4 Rheolaeth ac NVQ 4 Gofal neu Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Cymhwyster gwaith Cymdeithasol
- Cymhwyster cyfatebol arall
- Cymhwyster gwaith cymdeithasol a chymhwyster rheoli
- Nyrs Lefel Gyntaf a Rheolaeth

### Tabl 10: Cymwysterau

| | Nifer y Rheolwyr | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwyster | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Dyfarniad Rheolwr Cofrestredig | 553 | 536 | 486 | 452 | 390 |
| Lefel 5 LHSCS (Rheolaeth Breswyl Oedolion) | 61 | 131 | 229 | 304 | 375 |
| NVQ 4 Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer Gwasanaeth Gofal | 187 | 201 | 183 | 172 | 156 |
| NVQ 4 Rheolaeth | 181 | 169 | 149 | 140 | 120 |
| NVQ 4 Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) | 130 | 129 | 120 | 115 | 106 |
| NVQ 4 Gofal | 57 | 55 | 51 | 48 | 39 |
| NVQ 4 Rheolaeth ac NVQ 4 Gofal neu Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 13 | 13 | 12 | 11 | 10 |
| Cymhwyster gwaith cymdeithasol | 19 | 13 | 9 | 10 | 11 |
| Cymhwyster cyfatebol arall | 0 | 3 | 5 | 4 | 4 |
| Cymhwyster gwaith cymdeithasol a chymhwyster rheoli | 0 | 5 | 4 | 4 | 4 |
| Nyrs Lefel Gyntaf a Rheoli | 0 | 0 | 2 | 3 | 3 |
| Cyfanswm | 1,201 | 1,255 | 1,250 | 1,263 | 1,218 |

- Mae gan bob rheolwr gymhwyster perthnasol ac, erbyn hyn, mae gan bron i draean ohonynt (31 y cant) Ddiploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Breswyl Oedolion) Cymru, sef y cymhwyster presennol sy'n caniatáu i reolwyr gofrestru. Dyma gynnydd o gymharu â 24 y cant yn 2016.


### Tabl 11: Cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)

| Cofrestru â'r NMC | 2014 | | 2015 | | 2016 | | 2017 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Wedi cofrestru | 25.3% | 317 | 22% | 279 | 22.7% | 287 | 20.4% | 248 |
| Wedi cofrestru'n flaenorol | 4% | 50 | 3.5% | 44 | 3.2% | 41 | 2.7% | 33 |
| Cyfanswm | | 367 | | 323 | | 328 | | 281 |

- Mae 20.4 y cant o reolwyr wedi cofrestru gyda'r NMC hefyd. Dyma ostyngiad o 2.3 y cant ers 2016.

## 5.6 Oedran a rhywedd

Ffigur 2: Oedran a rhywedd rheolwyr




| | Odan 25 | 25 i 30 | 31 i 35 | 36 i 40 | 41 i 45 | 46 i 50 | 51 i 55 | 56 i 60 | 61 i 65 | Dros 65 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Menywod | 3 | 27 | 68 | 91 | 116 | 170 | 202 | 147 | 106 | 47 |
| Dynion | 1 | 11 | 26 | 35 | 37 | 42 | 36 | 24 | 19 | 10 |

- Oedran cyfartalog rheolwyr ar y Gofrestr oedd 49 oed, sydd heb newid o 2016.
- Mae canran y rheolwyr dros 60 oed yn parhau i gynyddu bob blwyddyn, o 11.2 y cant yn 2013 i 14.9 y cant yn 2017.
- O'r 150 rheolwr newydd a ymunodd â'r Gofrestr ers Mehefin 2016, roedd 116 yn fenywod ac roedd 34 yn ddynion.
- Mae cymhareb y menywod i ddynion yn parhau tua phedair menyw i un dyn.

## 5.7 Amrywiaeth a'r Gymraeg

Caiff data ar gyfle cyfartal a data ar y Gymraeg eu casglu'n wirfoddol fel rhan o'r broses gwneud cais er mwyn monitro bod y broses gofrestru yn deg.

**Tabl 12: Anabledd wedi'i ddatgan**

| | Canran y rheolwyr | | | |
|---|---|---|---|---|
| Anabledd | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Oes | 1% | 0.9% | 0.5% | 0.5% |
| Nac oes | 99% | 99.1% | 99.5% | 99.5% |

Canran y rheolwyr a wnaeth ddarparu gwybodaeth fonitro oedd 83.2 y cant (81 y cant yn 2016).

**Tabl 13: Amrywiaeth ethnig**

| Ethnigrwydd | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|
| Gwyn, Gwyn Prydeinig, Gwyn Cymreig, Gwyn Gwyddelig | 907 | 93.2% |
| Cefndir Gwyn arall | 11 | 1.1% |
| Cefndir Asiaidd arall | 10 | 1.0% |
| Asiaidd neu Indiaidd Prydeinig Asiaidd | 10 | 1.0% |
| Indiaidd | 7 | 0.7% |
| Du neu Affricanaidd Prydeinig Du | 6 | 0.6% |
| Cymysg Gwyn ac Asiaidd | 3 | 0.3% |
| Cymysg Gwyn a Du Caribïaidd | 3 | 0.3% |
| Ethnigrwydd arall | 5 | 0.5% |
| Cefndir du arall | 2 | 0.2% |
| Asiaidd neu Bacistanaidd Prydeinig Asiaidd | 2 | 0.2% |
| Du Caribïaidd | 2 | 0.2% |
| Pacistanaidd | 2 | 0.2% |
| Bangladeshaidd | 1 | 0.1% |
| Du Affricanaidd | 1 | 0.1% |
| Cymysg Gwyn a Du Affricanaidd | 1 | 0.1% |

O'r 79.9 y cant o reolwyr a ddarparodd wybodaeth am eu hethnigrwydd, disgrifiodd 94.3 y cant ohonynt eu hunain yn wyn. Yng Nghymru yn gyfan gwbl, disgrifiodd 95.6 y cant o'r boblogaeth eu hunain yn wyn[1].

*1. Ffynhonnell: "Arolwg Llafurlu Lleol Cymru/Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2016: Ethnigrwydd yn ôl awdurdod lleol Cymru" https://statswales.gov.wales/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/ethnicity-by-year-ethnicgroup*

### Tabl 14: Gallu'r Gymraeg

| | Canran y rheolwyr | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Gymraeg (canran) | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Rhugl | 10.5% | 10.2% | 10.4% | 10.4% | 11.3% |
| Rhywfaint o Gymraeg | 20.9% | 22.6% | 24.2% | 23.6% | 25.3% |
| Dim Cymraeg | 68.6% | 67.2% | 65.4% | 66.0% | 63.4% |

- Roedd canran y rheolwyr a ddarparodd wybodaeth am eu gallu yn y Gymraeg yn 83.7 y cant (81.1 y cant yn 2016).
- O'r rheolwyr a ddarparodd y wybodaeth hon, mae'r nifer sy'n rhugl yn y Gymraeg wedi cynyddu mymryn, sef ychydig o dan un y cant. Fodd bynnag, roedd y nifer yn datgan nad oeddent yn siarad Cymraeg o gwbl wedi gostwng 2.6 y cant ers 2016.
- Yng nghyfrifiad 2011, dywedodd 19 y cant o boblogaeth Cymru eu bod yn gallu siarad Cymraeg[2].
- Mae'r holl reolwyr yn rhoi iaith ohebu o'u dewis. Dywedodd 99.1 y cant mai Saesneg oedd yr iaith ohebu o'u dewis.

*2. Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Gofynnodd cwestiwn Cyfrifiad 2011 "A allwch ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?". Ni wnaeth y Cyfrifiad gasglu gwybodaeth am lefelau rhugldeb nac amlder defnydd.*

# Manylion cyswllt

Byddem yn falch clywed gennych os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr adroddiad hwn.

Os oedd yr adroddiad yn ddefnyddiol i chi, byddai gennym ddiddordeb yn clywed sut rydych wedi defnyddio'r data.

**Gofal Cymdeithasol Cymru**
South Gate House, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW
Ffôn: 0300 303 3444 | E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru
Gwefan: www.gofalcymdeithasol.cymru | Trydar: @GofCymdeithasol

© (2017) Gofal Cymdeithasol Cymru
Cedwir pob hawl. Ni chaiff unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei hatgynhyrchu, ei storio mewn system adalw na'i throsglwyddo ar unrhyw ffurf na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd o flaen llaw gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Dylai ymholiadau ynghylch atgynhyrchu y tu hwnt i'r cwmpas a ganiateir gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddwyd uchod.
ISBN: 978-1-911463-55-9

**Fformatau eraill**
Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras neu mewn fformatau eraill, os bydd angen.

Mae'r ddogfen hefyd ar gael yn Saesneg.

Dyluniwyd gan Escape to Design www.escapetodesign.co.uk